| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Gorffennaf 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Penodi i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Penodi un aelod i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) am o leiaf un flwyddyn fwrdeistrefol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae aelodau'r Panel yn cynnwys aelodau etholedig o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol a newidiadau i gydbwysedd gwleidyddol rhanbarthol ac mae arno angen i Gyngor Sir Ddinbych benodi aelod newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod:

(i) y Cyngor yn penodi un aelod o'r Grŵp Llafur i Banel yr Heddlu a Throsedd.
(ii) y cyfnod penodi'n cael ei ymestyn hyd nes bod y Cyngor wedi penderfynu ar y penodiad.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Yn unol â Chylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn gallu enwebu aelod neu aelodau i eistedd ar y Panel. Bydd hyn fel rheol yn digwydd yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

4.2 Mae'r Panel yn cynnwys 10 aelod etholedig a 2 aelod cyfetholedig annibynnol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Awdurdod Cynnal ar gyfer y Panel ac mae'n darparu'r gwasanaethau cefnogi. Mae seddi pob awdurdod yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol a phoblogaeth gogledd Cymru gyfan. Mae methodoleg *d'hondt* yn cael ei defnyddio i gyfrif nifer y seddi mae pob awdurdod lleol yn eu cael ac i ba blaid wleidyddol.

4.3 Yn seiliedig ar boblogaeth, mae Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam yn penodi 2 aelod yr un ac mae Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn penodi 1 aelod yr un. Mae maint prif bleidiau gwleidyddol y cynghorau yng ngogledd Cymru yn

penderfynu sawl sedd mae pob plaid yn ei chael. Mae gan y Blaid Lafur ac aelodau Annibynnol 3 sedd yr un, mae gan Blaid Cymru 2 sedd a chan y Ceidwadwyr a’r Rhyddfrydwyr 1 sedd yr un. I benderfynu pa awdurdod sy’n cael pa sedd mae’r Panel yn edrych ar nifer y seddi sydd gan y pleidiau gwleidyddol yn yr awdurdodau ac yna ar ba gyngor sydd â’r hawl fwyaf i’r seddi. Er enghraifft, mae gan Blaid Cymru 69 sedd yng ngogledd Cymru gyda 37 (53.6%) ohonyn nhw yng Ngwynedd. Felly mae’r ddwy sedd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer Plaid Cymru yn mynd i Gyngor Gwynedd. Yn yr un modd, mae gan Gonwy'r nifer mwyaf o gynghorwyr Ceidwadol (40%) ac felly’n cymryd y sedd sydd wedi ei neilltuo i’r Ceidwadwyr.

4.4 Llynedd gofynnwyd i’r Cyngor benodi aelod Annibynnol a phenodwyd y Cyng. Cowie i gynrychioli Sir Ddinbych. Mae canlyniadau etholiadau mis Mai 2013 Ynys Môn wedi eu hystyried ac o ganlyniad mae Sir Ddinbych yn cael 1 sedd ar gyfer aelod llafur.

4.5 Gall y Cyngor benderfynu ar gyfnod y penodiad hwn, ond ni ddylai fod yn llai na 1 flwyddyn fwrdeistrefol.

## 5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau diogelwch cymunedol sy’n cysylltu â nodau a gweithgareddau Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni ddisgwylir y bydd penodi cynghorydd newydd i’r Panel yn effeithio ar wasanaethau eraill nac yn arwain at gostau ychwanegol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.

Nid oes angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad hwn.

## 8 Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Gan fod y penodiad arfaethedig yn swydd wedi ei neilltuo, mae Grŵp Llafur Sir Ddinbych wedi derbyn gwybodaeth am y materion a godwyd.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni ddylai bod costau ychwanegol i’r Cyngor yn sgil y penodiad.

## 10 Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Bydd methu penodi aelod yn golygu na fydd diddordebau Sir Ddinbych yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn ystod cyfarfodydd y Panel.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â *Deddf Diwygio’r Heddluoedd a Hybu Cyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.*